

# Adroddiad Arholwyr Lefel 2

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Lefel 2

Haf 2024

© WJEC CBAC Ltd | City & Guilds.

**Cyflwyniad**

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu’r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

**Cefnogaeth bellach**

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |

[1] ***Noder:** **lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 216 Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 7 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 10 |


© WJEC CBAC Ltd.

**Crynodeb Gweithredol**

Teitl yr uned 216
DEALL GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT

Roedd cynnwys y papur hwn yn cyflwyno amrywiaeth o fathau o gwestiynau yn ymdrin â chynnwys Uned 216 fel y nodir yn y fanyleb. Roedd cwestiynau'n cyfateb i gyfresi blaenorol ac yn debyg o ran arddull i bapurau blaenorol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ferfau gorchmynnol cyfarwydd ym mhob adran. Roedd mathau o gwestiynau'n cynnwys blychau ticio a chwestiynau atebion byr ynghyd â gofynion mwy heriol megis yr angen i ddisgrifio neu ddadansoddi. Roedd yr enghraifft ddiweddarach yn fwy anodd i rai dysgwyr ond cafwyd amrywiaeth o gynigion.

Cyflwynwyd rhywfaint o dystiolaeth dda ar gyfer y Deilliannau Dysgu canlynol:

- DD4 (4.1/4.2) Nodi gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol (Cw1a, 1b, Cw2)
- DD3 (3.1) Deall mathau o bolisi (Cw3)
- DD1 (1.1) Gwybodaeth am agweddau ar ddatblygu (Cw4a, 4b, 4c)
- DD2 (2.3) Gwybodaeth a dealltwriaeth am fentrau'r llywodraeth (Cw6)
- DD2 (2.1/2.2) Cefnogi datblygiad cyfannol plant/Asesiad Risg (Cw8a, 8b)

Roedd rhai ymgeiswyr wedi profi peth anhawster â'r meysydd canlynol o'r fanyleb:
Cwestiynau 1 (c, ch) Cwestiwn 3 (a, b) Cwestiwn 5 Cwestiwn 7

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol**

- Unwaith eto caiff canolfannau eu hatgoffa o bwysigrwydd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyflwyniadau i gwestiynau. Mae'r wybodaeth hon ar gael i gefnogi ymgeiswyr ac mae bob amser yn berthnasol i'r cwestiwn. Dylid annog ymgeiswyr i'w defnyddio ond nid ei chopïo.
- Mae'r trosolwg yn nodi rhai bylchau mewn gwybodaeth a gellid eu defnyddio i baratoi ar gyfer arholiadau yn y dyfodol.
- Mae deddfwriaeth allweddol a/neu fentrau presennol y llywodraeth yn parhau i achosi problem i lawer o ymgeiswyr. Gellid ystyried hyn yn ystod gwaith adolygu at arholiad lle gall ymgeiswyr elwa petaent yn cysylltu deddfwriaeth ag ymarfer.
- Anogir canolfannau i ddarllen adborth unigol ar gwestiynau. Gall hyn gefnogi ymgeiswyr yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.

| Meysydd i'w gwella | Adnoddau ystafell ddosbarth | Disgrifiad byr o'r adnodd |
|---|---|---|
| DD4 (4.2) Mae angen i ymgeiswyr ddeall gwerth gweithio amlasiantaethol a meithrin gwybodaeth am rolau swyddi penodol mewn tîm amlasiantaethol. | Uned 216 – Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (dysguiechydagofal.cymru) | Bydd yr adnodd hwn yn caniatáu i ddysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am rôl a gwerth y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi anghenion gofal, iechyd, llesiant a datblygiad plant. |
| DD3 (3.1) Mae angen i ymgeiswyr feithrin gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddeddfwriaethau sy'n berthnasol i Gymru a sut maent yn cefnogi gofal a datblygiad plant. | Uned 216 – Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (dysguiechydagofal.cymru) | Bydd yr adnodd hwn yn caniatáu i ddysgwyr feithrin gwybodaeth am werth ac effaith deddfwriaeth mewn perthynas â phob math o leoliadau chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru |
| DD1 (1.4) Mae angen i ymgeiswyr feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r term 'ymlyniad sicr', yn ogystal ag ystyr y ferf orchymynnol 'dadansoddwch'. | Uned 216 – Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (dysguiechydagofal.cymru) | Bydd yr adnodd hwn yn caniatáu i ddysgwyr feithrin gwybodaeth am ymlyniad sicr. |
| DD2 (2.3) Mae angen i ymgeiswyr wybod am yr amrywiaeth o ddarpariaeth a amlinellir yn y fanyleb. Yn seiliedig ar rai atebion i'r cwestiwn hwn, gall ymgeiswyr hefyd elwa o nodyn atgoffa i ddarllen cwestiynau'n ofalus gan fod rhai atebion yn seiliedig ar faes chwarae mewn lleoliad cylch chwarae. | Uned 216 – Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (dysguiechydagofal.cymru) | Bydd yr adnodd hwn yn caniatáu i ddysgwyr feithrin gwybodaeth am sut gall amgylcheddau dysgu gynorthwyo a chefnogi iechyd, llesiant, datblygiad ac anghenion plant rhwng 0 ac 19 oed. |

© WJEC CBAC Ltd.

**CYMHWYSTER GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI**

**Lefel 2**

**Haf 2024**

**UNED 216 DEALL GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT**

**Trosolwg o'r Uned**

Roedd cynnwys y papur hwn yn cyflwyno amrywiaeth o fathau o gwestiynau yn ymdrin â chynnwys Uned 216 fel y nodir yn y fanyleb. Roedd cwestiynau'n cyfateb i gyfresi blaenorol ac yn debyg o ran arddull i bapurau blaenorol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ferfau gorchmynnol cyfarwydd ym mhob adran. Roedd mathau o gwestiynau'n cynnwys blychau ticio a chwestiynau atebion byr ynghyd â gofynion mwy heriol megis yr angen i ddisgrifio neu ddadansoddi. Roedd yr enghraifft ddiweddarach yn fwy anodd i rai dysgwyr ond cafwyd amrywiaeth o gynigion.

Cyflwynwyd rhywfaint o dystiolaeth dda ar gyfer y Deilliannau Dysgu canlynol:

- DD4 (4.1/4.2) Nodi gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol (Cw1a, 1b, Cw2)
- DD3 (3.1) Deall mathau o bolisi (Cw3)
- DD1 (1.1) Gwybodaeth am agweddau ar ddatblygu (Cw4a, 4b, 4c)
- DD2 (2.3) Gwybodaeth a dealltwriaeth o fentrau'r llywodraeth (Cw6)
- DD2 (2.1/2.2) Cefnogi datblygiad cyfannol plant/Asesiad Risg (Cw8a, 8b)

Roedd rhai ymgeiswyr wedi profi peth anhawster â'r meysydd canlynol o'r fanyleb:

Cwestiynau 1 (c, ch) Cwestiwn 3 (a, b) Cwestiwn 5 Cwestiwn 7

Gallai meysydd i'w gwella gynnwys:

- DD4 (4.2) Mae angen i ymgeiswyr ddeall gwerth gweithio amlasiantaethol a meithrin gwybodaeth am rolau swyddi penodol mewn tîm amlasiantaethol.
- DD3 (3.1) Mae angen i ymgeiswyr feithrin gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddeddfwriaethau sy'n berthnasol i Gymru a sut maent yn cefnogi gofal a datblygiad plant.
- DD1 (1.4) Mae angen i ymgeiswyr feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r term 'ymlyniad sicr', yn ogystal ag ystyr y ferf orchymynnol 'dadansoddwch'.
- DD2 (2.3) Mae angen i ymgeiswyr wybod am yr amrywiaeth o ddarpariaeth a amlinellir yn y fanyleb. Yn seiliedig ar rai atebion i'r cwestiwn hwn, gall ymgeiswyr hefyd elwa o nodyn atgoffa i ddarllen cwestiynau'n ofalus gan fod rhai atebion yn seiliedig ar faes chwarae mewn lleoliad cylch chwarae.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cwestiwn 1(a b c ch) DD4 (4.1 4.2)**
Roedd hwn yn gwestiwn 4-rhan gydag amrywiaeth o ferfau gorchymynnol yn caniatáu cyfle i ymgeiswyr lefel uwch ennill marciau ychwanegol. Roedd yr amrywiaeth hon hefyd yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr lefel is ennill marciau gwerthfawr tuag at y canlyniad cyffredinol. Atebwyd y gofyniad ticio blychau (1a) yn briodol gan y mwyafrif o ymgeiswyr a enillodd 4 marc llawn. Roedd hwn yn gyfle da i ymgeiswyr ddechrau'n hyderus ac i lawer parhaodd hyn yn rhan b o'r cwestiwn. Roedd y 2 adran sy'n weddill (c-ch) yn gofyn am ddull mwy manwl gan ddefnyddio'r berfau gorchymynnol, esboniwch a thrafodwch. Roedd rhai ymgeiswyr yn deall y berfau yn glir ac yn eu defnyddio'n briodol tra bod ymatebion eraill yn sylfaenol ac nid oeddent yn dangos dealltwriaeth glir o'r ferf na/neu gynnwys y cwestiwn. Nid oedd yn ymddangos bod rhai ymgeiswyr yn gwybod rôl y ffisiotherapydd ac wedi seilio eu hatebion ar anghenion cyffredinol plant. Roedd yr ystod hwn yn caniatáu i amrywiaeth o farciau gael eu rhoi.

**Cwestiwn 2 (4.2)**
Cwestiwn annibynnol gwerth 4 marc sy'n gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio sut mae grant dillad yn cefnogi cynhwysiant. Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr rywfaint o ddealltwriaeth, a rhoddwyd ystod o farciau. Lle roedd rhai atebion fel petaent yn dangos dealltwriaeth o beth yw grant dillad, weithiau nid oedd llawer o ymdrech i gysylltu'r ymateb â chynhwysiant. Rhoddwyd marciau band is i'r ymatebion hyn, fodd bynnag, cafodd pob ymgais ei gydnabod gan arholwyr yn dilyn trafodaeth.

**Cwestiwn 3 (a b c) (3.1)**
Yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015), roedd y cwestiwn 2 ran hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr amlinellu gwerth y ddeddfwriaeth hon cyn parhau i esbonio effaith un o'r nodau ar ymarfer gofal plant. Er i'r cwestiwn hwn fod yn anodd i rai ymgeiswyr, rhoddodd y rhan fwyaf gynnig ar ateb ac unwaith eto rhoddwyd ystod o farciau. Defnyddiodd rhai dysgwyr y wybodaeth cyn y cwestiwn ac roedd hyn yn caniatáu rhoi marciau uwch. Canolbwyntiodd y mwyafrif ar yr iaith Gymraeg a rhoddwyd marciau yn unol â hynny. Yn yr adran olaf (3c), gofynnwyd i ymgeiswyr nodi polisïau mewn lleoliadau gofal plant. Rhoddwyd amrywiaeth o atebion ac er nad oedd rhai polisïau wedi'u henwi'n gywir, defnyddiwyd marcio cadarnhaol i sicrhau tegwch.

**Cwestiwn 4 (a b c) (DD1)**
Roedd 3 adran y cwestiwn hwn yn gofyn i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o feysydd i'w datblygu. Gwnaed hyn i raddau amrywiol gyda rhai ymgeiswyr yn dangos meistrolaeth dda o'r berfau oedd eu hangen. Roedd marciau ar ben isaf yr ystod ar gael ym mhob un o'r tair adran gan roi cyfle i ymgeiswyr ennill marciau sydd eu hangen i ennill marc llwyddo. Enillodd llawer farciau llawn yn (a) a (c) er bod rhai fel petaent yn drysu rhwng sgiliau lleferydd ac iaith a sgiliau llythrennedd, ac felly'n colli marciau.

**Cwestiwn 5 (DD1)**
Dangosodd lleiafrif o ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth glir yn y cwestiwn hwn gyda'r mwyafrif yn ennill marciau yn y bandiau is. Roedd rhai yn gallu cyfeirio at ymlyniad yn briodol er bod ymdriniaeth â'r ferf, dadansoddwch, yn gyfyngedig. Roedd yr ymgeiswyr hynny a rannodd y cwestiwn yn adrannau yn seiliedig ar y geiriad yn gallu datblygu atebion mwy priodol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (DD2 2.3)**
Mae'r Fenter Dechrau'n Deg wedi'i hen sefydlu mewn lleoliadau yng Nghymru ac mae'n rhan amlwg o'r fanyleb ar gyfer Uned 216. O edrych ar yr ymatebion, mae'n ymddangos bod llawer o ddysgwyr sydd â phrofiad mewn lleoliad o'r fath yn gallu cysylltu eu hymarfer eu hunain â'r math hwn o gwestiwn, gan felly ennill marciau uwch. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai dysgwyr yn parhau i fod â gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r fenter Dechrau'n Deg.

**Cwestiwn 7 (DD2 2.3)**
Mae'r deilliant dysgu hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gael gwybodaeth am y darpariaethau amrywiol sydd ar gael i blant yng Nghymru. Roedd y cwestiwn hwn yn seiliedig ar ddarpariaeth cylch chwarae. Roedd yr ymatebion yn amrywiol ac roedd rhai ymgeiswyr yn crynhoi amrywiaeth o bwyntiau perthnasol. Mae'n bosibl bod hyn, yn debyg i'r hyn a nodir uchod, yn gysylltiedig â'u profiad gan nad oedd rhai ymgeiswyr yn gallu diffinio cylch chwarae yn glir. Unwaith eto, atgoffwyd arholwyr o farcio cadarnhaol.

**Cwestiwn 8(a) a (b) (DD2 2.1 2.2)**
Atebwyd rhan gyntaf y cwestiwn hwn yn dda gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Unwaith eto, roedd y rhai a rannodd eu hatebion yn dangos gwell dealltwriaeth gan ennill marciau uwch lle bo hynny'n berthnasol. Gwnaeth llawer gysylltiadau â'u profiad mewn lleoliad gwaith, a chyfrannodd hyn hefyd at y marciau uwch a enillwyd. Er nad oedd rhan b wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â rhan gyntaf y cwestiwn roedd rhai yn defnyddio gwybodaeth o'u hateb cyntaf i ehangu eu disgrifiad yn rhan b. Cafodd hyn ei gydnabod a'i ddefnyddio i gefnogi marciau uwch yn rhan b. Ar y cyfan roedd ymgeiswyr yn gorffen gyda rhai marciau da ar gyfer y cwestiwn olaf hwn.

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol**

- Unwaith eto caiff canolfannau eu hatgoffa o bwysigrwydd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyflwyniadau i gwestiynau. Mae'r wybodaeth hon ar gael i gefnogi ymgeiswyr ac mae bob amser yn berthnasol i'r cwestiwn. Dylid annog ymgeiswyr i'w defnyddio ond nid ei chopïo.
- Mae'r trosolwg yn nodi rhai bylchau mewn gwybodaeth a gellid eu defnyddio i baratoi ar gyfer arholiadau yn y dyfodol.
- Mae deddfwriaeth allweddol a/neu fentrau presennol y llywodraeth yn parhau i achosi problem i lawer o ymgeiswyr. Gellid ystyried hyn yn ystod gwaith adolygu at arholiad lle gall ymgeiswyr elwa petaent yn cysylltu deddfwriaeth ag ymarfer.
- Anogir canolfannau i ddarllen adborth unigol ar gwestiynau. Gall hyn gefnogi ymgeiswyr yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2240 4264
E-bost: GChDDP@cbac.co.uk
Tudalen we'r cymhwyster: Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori (i'w ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2025) (dysguiechydagofal.cymru)

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda dros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.